



**Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner**

<b>Teitl swydd:</b>	Rheolwr Prosiect CRM a Llifoedd Gwaith
<b>Math o gontract:</b>	Cyfnod penodol hyd at 6 mis
<b>Oriau Gwaith:</b>	37 awr yr wythnos
<b>Cyflog:</b>	£39,310 - £47,000
<b>Lleoliad:</b>	Hyblyg – Caerdydd, Caerfyrddin, Caernarfon neu Rhuthun. <i>*Gweithio o gartref am gyfnod yn sgil COVID*</i>

**Prif nod Comisiynydd y Gymraeg yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg.**

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 sefydlodd swydd Comisiynydd y Gymraeg, ac mae'n egluro beth yw rôl y Comisiynydd a'i staff. Mae'r Comisiynydd yn ehangu hawliau pobl i ddefnyddio'r Gymraeg drwy osod dyletswyddau cyfreithiol ar sefydliadau a gorfodi'r dyletswyddau hynny lle bo angen, mae rhan o'r gwaith hwn yn cynnwys ymchwilio i gwynion. Ymchwilir hefyd i geisiadau yn ymwneud ag ymyrraeth â'r rhyddid sydd i ddefnyddio'r Gymraeg yng Nghymru. Mae'r sefydliad yn gwneud gwaith megis ymchwil, cyhoeddi adroddiadau yn ogystal â rhoi cyngor a gwneud argymhellion. Gwneir gwaith dylanwadu ar bolisi lle mae gwneud hynny'n strategol bwysig i'r Gymraeg. Mae'r Comisiynydd hefyd yn hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach gan weithio yn y trydydd sector a'r sector preifat. Yn fwy cyffredinol mae'n gyfrifol am safoni enwau lleoedd ac am hyrwyddo'r cynllun Iaith Gwaith a chynhelir ymgyrchoedd ymysg defnyddwyr y Gymraeg yn rheolaidd i roi gwybod am ein gwaith a'r cyfleoedd sydd i ddefnyddio'r Gymraeg.

**Y swydd**

Mae gennym gyfle cyffrous i berson ymuno gyda ni am gyfnod penodol fel Rheolwr Prosiect i arwain y gwaith o ddatblygu system rheoli achosion a llifoedd gwaith newydd.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â ni trwy [swyddi@cyg-wlc.cymru](mailto:swyddi@cyg-wlc.cymru) neu 0345 6033221.

**Dyddiad cau:** 12:00, 29 Hydref 2021

**Dyddiad cyfsweld rhithiol:** 10 Tachwedd 2021

## Disgrifiad swydd

---

**Teitl:** Rheolwr Prosiect System Rheoli Achosion (CRM) a Llifoedd Gwaith

**Graddfa:** SEO

**Yn atebol i:** Cyfarwyddwr Strategol

### PRIF DDYLETSWYDDAU

Rheoli a chydlynu prosiect i ddatblygu system rheoli achosion a llifoedd gwaith newydd ar gyfer swyddfa'r Comisiynydd. Mae'r prosiect yn rhan o strategaeth TG mewnol y Comisiynydd a bydd angen i'r rheolwr prosiect gydweithio gyda swyddogion y Comisiynydd a chwmi trydydd parti allanol i sicrhau bod y prosiect yn cael ei weithredu'n effeithiol ac yn unol ag amserlen a chyllideb wedi ei chytuno.

Mae swyddfa'r Comisiynydd wedi trawsnewid ei amgylchedd TG dros y misoedd diwethaf ac yn defnyddio Microsoft 365. Mae bwriad creu system rheoli achosion newydd a llifoedd gwaith a fydd yn seiliedig ar Microsoft Dynamics. Bydd y system newydd yn cadw data am rai o brif elfennau gwaith y sefydliad, gan gynnwys llifoedd gwaith rheoleiddio, cwynion ac ymchwiliadau.

### CYFRIFOLDEBAU PENODOL

1. Bod yn brif pwynt cyswllt gyda staff allweddol a datblygwyr allanol drwy gydol y prosiect.
2. Sicrhau bod holl ofynion y cynllun yn cael eu cwblhau yn unol â'r amserlen a'r gyllideb.
3. Sefydlu a rheoli trefniadau adrodd a monitro rheolaidd rhwng y sefydliad a'r datblygwyr.
4. Delio gydag ymholiadau gan y datblygwyr, ateb cwestiynau a gwneud penderfyniadau ar faterion gweithredol.
5. Diweddarau'r cyfarwyddwr a'r tîm rheoli ar gynnydd gyda'r prosiect. Mynychu cyfarfodydd a chyflwyno adroddiadau yn ôl yr angen.
6. Cadeirio grŵp tasg a gorffen mewnol o staff. Rhannu tasgau a chyfrifoldebau ymysg aelodau'r grŵp yn ôl yr angen.

7. Gweithio'n agos gyda rhai staff allweddol, gan gynnwys y Swyddog Prosiect Strwythur Ffeilio a'r Swyddog TG.
8. Sicrhau cyswllt a chydweithio rhwng elfennau'r prosiect a datblygiadau corfforaethol eraill yn y sefydliad, gan gynnwys datblygiadau strategaeth TG y Comisiynydd a'r gwaith o sefydlu strwythur ffeilio newydd.
9. Meithrin cysylltiadau gyda sefydliadau allanol sydd wrthi neu wedi datblygu systemau tebyg er mwyn dysgu o arfer dda.
10. Gweithredu'n gyson ac yn unol â holl bolisiâu a chanllawiau perthnasol y Comisiynydd. Parodrwydd i ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill yn ôl yr angen.

## Manyleb person

Priodoleddau	Hanfodol	Dymunol
<b>Cymwysterau</b>	Gradd /cymhwyster proffesiynol mewn maes perthnasol neu brofiad cyfatebol	Cymhwyster rheoli prosiect
<b>Profiad</b>	Profiad o reoli prosiect.  Profiad o weithio gyda systemau CRM, neu systemau cyfatebol.  Profiad o weithio gyda systemau Microsoft.	Profiad o ddatblygu systemau gwybodaeth neu gronfeydd data.  Profiad o arwain a rheoli tîm o swyddogion.  Profiad o reoli cyllidebau.
<b>Sgiliau a gwybodaeth</b>	Sgiliau cyfathrebu da, ar lafar ac yn ysgrifenedig.  Rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg.  Sgiliau adrodd amonitro cynnydd.  Sgiliau dadansoddi a datrys problemau.  Dealltwriaeth o waith y Comisiynydd a chyfrifoldebau rheoleiddio.	Sgiliau TG da a dealltwriaeth fanwl o gronfeydd data.

<b>Priodoleddau personol</b>	<p>Dull rhesymegol a threfnus o weithio hefo sylw rhagorol i fanylion</p> <p>Y gallu i weithio heb oruchwyliaeth.</p> <p>Y gallu i wneud penderfyniadau a gweithredu arnynt.</p> <p>Y gallu i ddatblygu a chynnal perthynas waith rhagorol ag eraill</p>	
------------------------------	--	--

## Amodau a thelerau

<b>Contract</b>	Tymor penodol / Secondiad am 6 mis
<b>Oriau Gwaith</b>	37 awr yr wythnos (Yr oriau amodol ar gyfer staff sy'n gweithio llawn-amser yw 37 awr yr wythnos, heb gynnwys toriadau prydau bwyd).
<b>Cyflog</b>	£39,310 - £47,000 y flwyddyn. Caiff y cyflog ei dalu'n fisol, fel rheol ar y diwrnod olaf yn y mis.
<b>Lleoliad</b>	Hyblyg – Caerdydd, Caernarfon, Caerfyrddin, Rhuthun *Gweithio o gartref am gyfnod*
<b>Pensiwn</b>	Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gweithredu Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Yn unol â Deddf Pensiynau 2008 mae'n ofynnol i ni eich cofrestru'n awtomatig – os ydych am eithrio eich hunan o'r cynllun pensiwn bydd gofyn i chi ein hysbysu yn ysgrifenedig.
<b>Oriau hyblyg</b>	Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gweithredu cynllun gweithio oriau hyblyg (fflecsi).
<b>Gwyliau</b>	Yn flynyddol cewch 31 diwrnod y flwyddyn o wyliau <i>pro-rata</i> gyda chyflog. Yn ogystal cewch 10 diwrnod <i>pro-rata</i> o wyliau cyhoeddus a braint.
<b>Cyfnod Prawf</b>	Bydd eich swydd gyda Chomisiynydd y Gymraeg ar brawf am 3 mis.